Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Nodyn gwybodaeth**

# Eisiau rhoi cynnig ar dyfu coeden o fesen?
# Dyma sut i wneud!

## Adnoddau

- Mes
- Pot planhigion, pot iogwrt mawr, neu torrwch waelod potel blastig wag
- Soser neu rywbeth tebyg i'w gosod o dan eich potyn
- Cerrig
- Tywod (delfrydol ond ddim yn hanfodol)
- Pridd neu gompost sydd heb fawn ynddo
- Bag plastig neu fag bwyd
- Band lastig
- Ffens ieir (delfrydol ond ddim yn hanfodol)

## Beth i'w wneud


1. Mae mes sydd wrthi'n datblygu dal yn wyrdd, ac yn troi'n frown pan fyddant yn aeddfed. Byddant yn dechrau disgyn o'r coed ym mis Hydref, pan fydd y gwyntoedd cryfion yn dechrau neu ar ôl iddi rewi am y tro cyntaf. Cadwch lygaid ar eich coeden - unwaith y bydd hi'n oeri bydd y mes yn dechrau disgyn. Peidiwch â chadw'r mes sy'n disgyn gyntaf (y rhai sy'n disgyn gyda gwyntoedd cyntaf yr hydref) gan na fyddant yn ddigon aeddfed - bydd y prif gwymp yn digwydd rhyw bythefnos yn ddiweddarach.



2. Mae mes yn darfodus, ac yn pydru'n hawdd. Wedi iddynt ddisgyn byddant yn dechrau egino tua 5-15 wythnos yn ddiwedd arach. Er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'ch mes egino heb iddynt sychu a marw, mae'n well eu plannu'n syth.



3. Ystyriwch pa fath o gynhwysydd yr ydych am ei ddefnyddio i dyfu'ch mesen. Gallwch ddefnyddio pot planhigion, neu'n hytrach gallwch ddefnyddio pot iogwrt mawr neu waelod potel blastig wag. Rhaid i'ch pot fod o leiaf 15cm o uchder.



4. Sicrhewch fod tyllau yng ngwaelod eich pot, a rhowch ddyrnaid o gerrig yn y gwaelod yn ogystal â thywod (delfrydol, ond nid hanfodol) er mwyn helpu gyda'r draeniad. Gosodwch soser o dan y pot er mwyn dal unrhyw ddŵr.



5. Rhowch oddeutu 10cm o bridd neu gompost heb fawn ynddo yn y pot, fel ei fod yn 2/3 llawn.



6 Gosodwch y fesen ar ben y pridd, ac yna gosodwch haen o bridd tua'r un trwch â'r fesen ar ei phen.



7 Gorchuddiwch y pot gyda bag plastig, gan ddefnyddio'r band elastig i'w ddal. Bydd hyn yn cadw'r hedyn yn ddigon llaith heb orfod ei ddyfrio. Gadewch y potyn mewn ffrâm oer, tŷ gwydr heb wres, neu rywle'r tu allan sy'n derbyn digon o haul a lloches rhag y gwynt. Peidiwch â chadw'r potyn yn y tŷ, bydd y gwres yn peri i'r fesen sychu. Yn ddelfrydol, gosodwch ffens ieir dros y pot er mwyn atal llygod ac ati rhag bwyta'r fesen yn ystod y gaeaf.



8 Bydd y gwreiddiau'n dechrau tyfu trwy'r gaeaf, gyda'r eginyn yn ymddangos yn y gwanwyn. Pan fyddwch chi'n gweld yr hedyn yn egino, tynnwch y bag plastig oddi arno. Cofiwch ddyfrio'r eginyn unwaith neu ddwywaith bob wythnos. Dylai'r pridd fod yn llaith, ond ddim yn wlyb.



9 Parhewch i ddyfrio'r eginyn, ac os ydyw mewn ffrâm oer/tŷ gwydr, rhowch y pot y tu allan pan fydd hi'n dechrau cynhesu. Yn yr Hydref, flwyddyn ar ôl i chi gasglu'r fesen, gallwch symud yr eginyn i bot mwy er mwyn iddi parhau i dyfu. Ar ôl blwyddyn neu ddwy, gallwch ei phlannu yn y ddaear. Cofiwch fod coed derw'n tyfu i fod yn 20-40 metr o uchder! Gwnewch yn siŵr fod eich glasbren chi'n bell o unrhyw dai neu strwythurau eraill, fel bo ganddi ddigon o le i dyfu a chael golau'r haul.



## Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** os gwelwch yn dda, neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government